

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfynngiadau a Chau Oherwydd Y Cornafeirws) 2020

## Esboniad o'r rheoliadau

### 1. Aros gartref

Dylech ond adael y tŷ am resymau cyfyngedig iawn:

- **siopa am bethau angenrheidiol a chyflenwadau sylfaenol**, er enghraifft bwyd a meddyginiaeth, a ddylai fod mor anaml â phosibl.
- **un math o ymarfer corff bob dydd**, er enghraifft rhedeg, cerdded neu feicio – ar eich pen eich hun neu gydag aelodau o'ch cartref.
- **dibenion meddygol**, gan gynnwys rhoi gwaed, osgoi neu atal risg o anaf neu niwed, neu ddarparu gofal neu helpu person sy'n agored i niwed.
- **teithio at ddibenion gwaith** lle na allwch chi weithio'n rhesymol o'ch cartref.

Mae'r rhesymau hyn yn eithriadau – hyd yn oed wrth wneud y gweithgareddau hyn, dylech fod yn lleihau'r amser a dreulir y tu allan i'r cartref a sicrhau eich bod yn ddau fetr ar wahân i unrhyw un heblaw'r rhai sy'n byw yn eich cartref.

Dylai pawb ddilyn y mesurau hyn. Mae Cyngor ar wahân ar gael i unigolion neu gartrefi sy'n ynysu, os yw'r unigolyn neu aelod o'r cartref yn symptomatig, ac i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed y mae angen eu gwarchod. Lle nad yw rhieni'n bywyn yr un cartref, gall plant o dan 18 oed symud rhwng cartrefi eu rhieni.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi nifer o weithwyr critigol y gall eu plant fynd i'r ysgol neu eu darparwr gofal plant o hyd. **Nid yw'r diffiniad gweithiwr critigol hwn yn effeithio ar p'un a allwch deithio i'r gwaith ai peidio** – os nad ydych yn weithiwr critigol, efallai y byddwch yn dal i deithio i'r gwaith ar yr amod na allwch weithio o gartref ac ar yr amod bod busnes eich cyflogwr yn dal i gael caniatâd i weithredu o dan ddeddfwriaeth a wnaed gan Lywodraeth Cymru (gweler isod).

Gall gweithwyr critigol a rhieni plant sy'n agored i niwed adael y tŷ i fynd â phlant yn i'r ysgol a'u cludo adref neu i fynd a nhw at eu darparwr gofal plant.

Dylai gwasanaethau cyhoeddus hanfodol eraill gael eu darparu a chael mynediad iddynt o bell pryd bynnag y bo'n bosibl, ond gallwch adael y tŷ i gael mynediad iddynt pan fydd presenoldeb corfforol yn gwbl angenrheidiol.

## 2. Cau busnesau a lleoliadau penodol

Er mwyn lleihau cyswllt cymdeithasol, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r angen i rai busnesau a lleoliadau gau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **tafarndai, sinemâu a theatrau.**
- **pob siop fanwerthu sy'n gwerthu nwyddau nad ydynt yn hanfodol** - mae hyn yn cynnwys dillad a storfeydd electroneg (er y gallant barhau i fasnachu ar-lein); a marchnadoedd awyr agored a dan do, ac eithrio marchnadoedd bwyd, mae hefyd yn cynnwys salonau gwallt, harddwch ac ewinedd
- **llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol a chanolfannau ieuenctid.**
- **cyfleusterau hamdden dan do** ac awyr agored fel lonydd bowlio, arcedau a chyfleusterau chwarae meddal.
- **mannau cymunedol mewn parciau**, fel meysydd chwarae, cyrtiau chwaraeon a champfeydd awyr agored.
- **addoldai**, ac eithrio angladdau a fynyichir gan deuluoedd agos.
- **gwestai, hosteli, llety gwely a brecwast, safleoedd gwersylla, parciau carafanau, a thai preswyl ar gyfer defnydd masnachol/hamdden**, ac eithrio trigolion parhaol, gweithwyr allweddol ac, mewn rhai achosion, y rhai sy'n darparu llety brys, er enghraifft ar gyfer y digartref.

Ceir gwybodaeth ac eithriadau mwy manwl yn y Rheoliadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar 26 Mawrth, gan gynnwys y rhestr o'r busnesau hynny a'r lleoliadau eraill y mae'n rhaid eu cau. Gall busnesau eraill aros ar agor a gall eu gweithwyr deithio i'r gwaith, ar yr amod na allant weithio gartref.

## 3. Stopio pobl rhag ymgynnull yn gyhoeddus

I wneud yn siŵr bod pobl yn aros gartref ac ar wahân i'w gilydd, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn **atal mwy na dau berson rhag ymgynnull yn gyhoeddus.**

Dim ond at ddibenion cyfyngedig iawn y mae eithriadau i'r Rheol hon:

- **Ile mae'r casgliad o bobl yn grŵp o bobl sy'n byw gyda'i gilydd** - mae hyn yn golygu y gall rhiant, er enghraifft, fynd a'u plant i'r siop os oes angen iddynt fynd i brynu bwyd os nad oes opsiwn i'w gadael adref.
- **Ile mae'r casgliad o bobl yn hanfodol ar ddibenion gwaith here the gathering is essential for work purposes, or to fulfil legal obligations** – ond fe ddylai gweithwyr geisio lleihau nifer y cyfarfodydd a phobl yn ymgynnull mewn ffyrdd eraill yn y gweithle.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn atal digwyddiadau cymdeithasol, yn ogystal â digwyddiadau gan gynnwys priodasau, bedydd a seremonïau crefyddol eraill. Nid yw hyn yn cynnwys angladdau, y gall y teulu agos eu mynychu.

## 4. Mynd i'r gwaith

Fel y nodir yn yr adran ar aros gartref, gall pobl deithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith lle na allant weithio'n rhesymol o'u cartref.

Ac eithrio'r sefydliadau yr ymdrinnir â nhw uchod yn yr adran sy'n ymwneud â chau busnesau a lleoliadau penodol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi mynnu bod unrhyw fusnesau eraill yn cau.

Dylai cyflogwyr a gweithwyr drafod eu trefniadau gweithio, a dylai cyflogwyr gymryd pob cam posibl i helpu eu gweithwyr cyflogedig i weithio gartref, gan gynnwys darparu cyfarpar a TG addas i alluogi gweithio o bell. Mae gan gyflogwyr hefyd ddyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 i gymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw eu cyflogeion yn agored i risgiau i'w hiechyd, ond mae methu â gwneud hynny yn drosedd. Felly, mae'n rhaid iddynt ystyried pa gamau diogelwch y gallant eu rhoi ar waith i sicrhau diogelwch eu gweithwyr.

Weithiau ni fydd hyn yn bosibl, gan na all pawb weithio o gartref. Mae rhai swyddi yn ei gwneud yn ofynnol i bobl deithio i'w man gwaith – er enghraifft os ydynt yn gweithredu peiriannau, gwaith adeiladu neu weithgynhyrchu, neu'n darparu gwasanaethau rheng flaen.

Os na allwch weithio gartref, yna gallwch barhau i deithio i'r gwaith, ar yr amod nad ydych yn dangos symptomau coronafeirws ac nad ydych chi nac unrhyw un o'ch cartref yn hunanynysu. Mae hyn yn gyson â chynghor gan y Prif Swyddog Meddygol.

Dylai cyflogwyr sydd â phobl yn eu swyddfeydd neu ar y safle sicrhau bod gweithwyr yn gallu dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru gan gynnwys, lle y bo'n bosibl, cynnal pellter o 2 fetr oddi wrth eraill, a golchi eu dwylo â dŵr a sebon yn aml am o leiaf 20 eiliad (neu ddefnyddio diheintydd dwylo os nad oes dŵr a sebon ar gael).

Gall gwaith sy'n cael ei wneud yng nghartrefi pobl, er enghraifft gan grefftwyr sy'n gwneud gwaith trwsio a chynnal a chadw, barhau, ar yr amod bod y masnachwr yn iach a heb symptomau. Unwaith eto, mae'n bwysig sicrhau bod canllawiau, gan gynnwys cynnal pellter o 2 fetr oddi wrth drigolion y cartref, yn cael eu dilyn er mwyn sicrhau diogelwch pawb.

Ni ddylid gwneud unrhyw waith ar unrhyw aelwyd sy'n ynysu neu lle mae unigolyn yn cael ei gysgodi, oni bai ei fod yn cywiro risg uniongyrchol i ddiogelwch yr aelwyd, megis plymio neu waith trwsio brys, a lle mae'r masnachwr yn fodlon gwneud hynny. Mewn achosion o'r fath, gall iechyd cyhoeddus Cymru roi cynghor i grefftwyr a chartrefi.

Ni ddylai unrhyw waith gael ei wneud gan fasnachwr sydd â symptomau coronafeirws, waeth pa mor ysgafn yw'r symptomau.

Fel y nodir yn yr adran ar gau siopau a manau cyhoeddus nad ydynt yn hanfodol, mae Llywodraeth Cymru wedi gorchymyn cau rhai busnesau a lleoliadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod canllawiau ar ba sefydliadau y mae'r gofyniad hwn yn eu cwmpasu.

Dylai gweithwyr, bob amser, ddilyn y canllawiau ar hunanynysu os ydyn nhw neu unrhyw un ar eu haelwyd yn dangos symptomau o'r coronafeirws

## **5. Darparu'r mesurau newydd hyn**

### **Rhaid i bawb gydymffurfio â'r mesurau newydd hyn.**

Mae Llywodraeth Cymru felly yn sicrhau bod gan yr heddlu ac awdurdodau perthnasol eraill y pwerau i'w gorfodi lle nad yw pobl yn cydymffurfio.

Os byddwch yn gadael eich cartref neu'n ymgynnull yn gyhoeddus am unrhyw reswm heblaw'r rhai a nodir: gall yr heddlu:

- Roi gorchymyn i chi fynd adref, gadael ardal neu wasgaru
- Roi gorchymyn i chi gymryd camau er mwyn stopio eich plant rhag torri'r rheolau hyn os ydynt eisoes wedi gwneud hynny
- Mynd â chi adref – neu eich arestio – os nad ydych chi'n dilyn eu cyfarwyddiadau neu lle maent yn penderfynu bod hynny'n angenrheidiol.

Bydd yr heddlu'n gweithredu gyda disgresiwn a synnwyr cyffredin wrth weithredu'r mesurau hyn a disgwyliwn i'r cyhoedd weithred mewn modd cyfrifol, gan aros gartref er mwyn achub bywydau.

Fodd bynnag, os credant eich bod wedi torri'r rheolau hyn – neu os byddwch yn gwrthod dilyn eu cyfarwyddiadau – gall swyddog heddlu roi hysbysiad cosb benodedig i chi am £60 (wedi'i ostwng i £30 os caiff ei dalu o fewn 14 diwrnod). Os yw person eisoes wedi derbyn hysbysiad cosb benodedig, bydd y swm yn cynyddu i £120 ac yn dyblu bob tro y bydd trosedd arall yn cael ei chyflawni. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu hyn.

Yn yr un modd, bydd busnes neu leoliad sy'n gweithredu yn groes i'r mesurau hyn yn cyflawni trosedd. Rhagwelir y bydd Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach yn monitro cydymffurfiaeth, gyda chymorth yr heddlu os yw hynny'n briodol. Bydd busnesau ac eiddo sy'n eu torri yn destun hysbysiadau gwahardd a dirwyon. Bydd busnesau sy'n parhau i fynd yn groes i'r mesurau yn cael eu gorfodi i gau.

Ar gyfer unigolion a chwmnïau, os nad ydych yn talu, efallai y cewch eich cludo i'r llys hefyd, gydag ynadon yn gallu gosod dirwyon a allai fod yn ddiderfyn.

Bydd y mesurau hyn yn para am dair wythnos o 26 Mawrthyn y lle cyntaf, a byddant yn cael eu hadolygu gan Lywodraeth Cymru.